YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLIV. MAI, 1944. RHIF 5.

Egwyddorion yr Undodiaid.

YR oedd yr Undodiaid cynnar yn gwybod yn gywir pam yr oeddynt yn Undodiaid ac yn barod i ateb am y ffydd oedd ganddynt. Ysywaeth ni ellir dweud hynny am Undodiaid Ceredigion i gyd heddiw. Ar daith o le i le ac o gwmni i gwmni yn eu plith, clywais gydnabod gonest gan nifer fawr na fedrent ddweud beth oedd eu ffydd pe gofynnid iddynt. Diolch i'r Parch. J. Islan Jones, M.A., ni fydd angen i neb llythrennog fod heb wybod sylfeini'r ffydd bellach. (Pa ffydd a all fod gan ddyn heb sylfeini ?)

Y mae Gwerslyfr Undeb Ysgolion Sul yr Undodiaid, "*Egwyddorion yr Undodiaid*," yn rhoi ateb twt a pharod i bron bob cwestiwn a ofynnir i Undodwr o dro i dro. Y mae hwn yn waith gwerthfawr am ei fod yn syml a dealladwy. Credaf y dylai pob athro a gweinidog sy'n gofalu am ddosbarth Ysgol Sul o'r deg i fyny (neu fel y bo gallu'r plant) fwrw ati ar unwaith gan fynd drwy'r llyfryn yma yn drwyadl. Nid i blant yn unig mo hwn, ond gwenith pur wedi ei nithio a fydd yn fwyd teilwng i rai mewn oed.

Oes y ' propaganda ' yw hon hefyd a gobeithio y caiff y llyfryn gerddediad rhwydd i lawer o gartrefi Cymru—dylasai'r enwad ofalu am hynny yn ei gyfarfod busnes nesaf.

Gair bach mwy beirniadol er cael dechrau'r dadlau, oherwydd hanfod Undodwr yw nad yw yn credu yr un fath a phob Undodwr arall. Ceisiais ddarllen y penodau fel pe na bawn Undodwr ond yn hytrach fel dyn na wyddai ddim am Undodiaeth. Cefais fod y gosodiadau yn deg a di-dramgwydd ac yn hawdd i'w deall, eithr ni chyd-âf â phennod y "Gwyrthiau", "Cred yr Undodiaid fod Duw wedi rhoi i'r byd materol ddeddfau anghyfnewidiol." Gofynnaf, i ddechrau'r ddadl a oes sicrwydd fod deddfau anghyfnewidiol i'r byd materol. Myn rhai athronwyr nad oes sicrwydd ac nad yw "deddfau" achos ac effaith fel y'i gelwir yn treiddio i waelod pethau. Oni chlywodd Undodiaid am ddigwyddiadau a barodd syndod cyffrous ? Onid wyf yn cyfeiliorni ymhell, cynhwysir dyn yn y byd anianol a materol a sonnir amdano yn y bennod, oni

wneir nid oes bwrpas iddi wrth sôn am Egwyddorion dynion. Felly, gofynnaf a feiddia unrhyw un ddweud ei fod yn deall dyn a'i weithrediadau o'i draed i'w gorun? Onid yw yn rhyfedd ac anesboniadwy? Onid yw'n wyrth? Meddylier am ddyn gwael, ofer, meddw sy'n llithro ar ei ben i golledigaeth neu i ble bynnag y mynnwch ddweud y mae dyn felly yn mynd. Yn ôl deddfau digyfnewid achos ac effaith natur y mae'n rhaid i'r dyn yma fynd ymlaen ar ei daith bendramwnwgl i ebargofiant. Ond na, trwy *wyrth*, fe gydiodd hedyn o'r efengyl yn ei galon a dyma'r gŵr ar ei draed unwaith eto. Gellir dweud fod hanes Renan yn eglurhad boddhaol ar lawer digwyddiad a elwid yn 'wyrth,' ond gresyn egluro pob peth yn faterol a sôn ar yr un anadl am enaid ac ysbryd dyn. Carwn weld rhagor o ysgrifennu ar y cwestiwn yma. Beth am yr YMOFYNNYDD nesaf?

Credaf fod gwall yn y frawddeg olaf o'r bennod gyntaf, onid "parchu ac addoli Duw," a ddylai fod, nid "*perchi* ac addoli Duw."

Gofalwch fod digon o gopïau ym mhob Ysgol Sul ac un i bob cartref. Tair ceiniog yw'r pris. D. JACOB DAFIS.

(Bu un arall a fwriodd olwg dros lawysgrif y llyfryn gwerthfawr hwn yn oedi uwchben y gair "perchi." Y mae'n air sathredig, ac iddo ei le yng ngeiriadur Bodfan. Digon o warant dros ei ddefnyddio.

Cyfyd D. J. D. gwestiwn amserol cred mewn gwyrthiau. Gwir fod ymdriniaeth feirniadol o "wyrthiau'r Testament Newydd" wedi newid tipyn yn ystod y chwarter canrif diwethaf. Croesawir trafodaeth o'r pwnc yn yr YMOFYNNYDD.—*Golygydd*).

Ymadrodd Rhyfedd.

EBE lladmerydd uniongred yn y *Gwyliedydd Newydd*, wrth "esbonio" i blant yr ugeinfed ganrif y bedwaredd bennod ar ddeg o'r Efengyl yn ôl Marc, adnodau 32-42.

> "Efallai na lefarodd odid neb, eiriau mwy pendant am ei ddyndod [sef dyndod Iesu o Nasareth] na Martin Luther: "Bwytaodd, yfodd, cysgodd, deffroes; bu'n flinedig, yn drist, yn llawen; wylodd a chwarddodd; gwybu newyn a syched a chwŷs; llefarodd, llafuriodd, gweddïodd; yn fyr, gwnaeth ddefnydd o bopeth at angen ac at gadw y bywyd hwn, gweithiodd a dioddefodd fel unrhyw ddyn arall, ond yn unig ei fod Ef heb bechod. Mewn geiriau eraill, bu'n gyfrannog o bethau drwg a phethau da fel unrhyw un arall, fel nad oedd *dim gwahaniaeth o gwbl* rhyngddo Ef a dynion eraill, ond yn unig hyn, *ei fod Ef yn Dduw* ac yn ddi-bechod!' "

Myfi biau'r italeiddio. A dyna "wahaniaeth," onid e? A'r dehonglydd dysgedig hwn (y sydd ag M.A. a B.D. ar ôl ei enw) yn ei flaen fel hyn:

"O sylweddoli ei wir ddyndod gallwn amgyffred, mewn rhan beth bynnag, pa beth a olygai ing yr ardd iddo. Ond *yr oedd Ef yn Dduw* ; a phan gofiwn hynny, sylweddolwn fod yn yr ing rywbeth sydd yn gyfan-gwbl tu hwnt i'n hamgyffred ni."

Beth, yn enw'r Nefoedd, ydyw ystyr ymadrodd fel yna, od oes ystyr o gwbl iddo ? A dywedyd y lleiaf, y mae'n hunan-wrthwynebol—yn fwngleriad gwarthus i'r eithaf. Dywedir wrthym gan ddiwinyddion yr ysgol hon, wrth gwrs, mai fel dyn y gweithiai Mab y Saer wrth fainc ei dad ym mhentref Nasareth, ac fel dyn y bwytaodd ac yr yfodd, y blinodd ac y cysgodd megis unrhyw ddyn arall, eithr fel "duw" y cyflawnodd efô "wyrthiau." Tybed ai fel dyn, ai ynteu fel "duw," y dioddefodd efô'r ing yn yr ardd ac y deisyfodd, megis y gwnâi unrhyw ddyn arall mewn cyfyngder cyffelyb, am waredigaeth, od oedd modd, o'r cwpan chwerw a roddasid iddo i yfed ohono gan ei elynion ? Nage, yn ôl y lladmeryddion uniongred (ar awdurdod Martin Luther), oblegid "yr oedd Ef yn Dduw"—neu o'r hyn lleiaf, ym mrawddeg y diwinydd Thomas Charles Edwards gynt, "Duw-Ddyn" ydoedd. Hynny yw, hyd y gwelaf fi, nid *gwir* ddyn na *gwir* dduw mohono, eithr ffug, hanner-dyn a hanner-duw ; neu "mewn geiriau eraill" (chwedl Luther), ffuantwr, twyllwr, rhagrithiwr ; "Duw yn gwisgo natur dyn" (i ddyfynnu Ann Griffiths, neu Bantycelyn, pwy bynnag biau'r ymadrodd)—yr "Anfeidrol Ddwyfol Fod" yn ymrithio ymysg meidrolion daear gan gymryd arno ei fod yr hyn nad ydoedd mewn ffaith a dirwedd. Felly, yn yr ardd, yr oedd yr hanner-dyn yn gweddïo ar yr hanner-duw ! . . . Ond tawer a sôn, "y mae yn yr ing yn yr ardd" dan gysgod y groes "rywbeth sydd yn gyfan-gwbl tu hwnt i amgyffred" dynion cyffredin a bodau naturiol. Gan hynny nid yw'r ffaith hanesyddol hon nac o bwys na ddiddordeb i neb heblaw diwinyddion wrth eu swydd sy'n chwannog i elwa ar chwarae â geiriau amwys a brawddegau disynnwyr.

Chislehurst, Kent. D. Delta Evans.

Maes Llafur yr Ysgol Sul.

Cynhelir yr Arholiad Dydd Sadwrn, Mehefin 3, 1944.

Safon I (o dan 9 oed). *Holwyddoreg ar Grefydd.* Duw, Addoliad, Y Da a'r Drwg (tudalennau 1—4).

Safon II (o 9 hyd 12 oed). Dameg y Samariad Trugarog (Luc x) a'r tair dameg yn Luc xv,—y Ddafad Golledig, y Darn Arian, a'r Mab Afradlon. (Ymddengys nodiadau arnynt yn yr Ymofynnydd).

Safon III (o 12 oed i fyny). Yr un damhegion ag i Safon II. *Egwyddorion yr Undodiaid*, tudalennau 2 hyd 7, ag eithrio "Y Beibl."

Pris yr *Holwyddoreg ar Grefydd* yw dwy geiniog ; pris *Egwyddorion yr Undodiaid* yw tair ceiniog.

Gellir eu cael oddiwrth y Parch. A. J. Martin, B.A., Araul, Llanwnnen, Lampeter.

Disgwylir i bob Undodwr brynu *Egwyddorion yr Undodiaid* a'i ddosbarthu.

NODIADAU AR Y MAES LLAFUR.

Trefnwyd y nodiadau hyn gan Miss S. A. Evans, Llandysul, ar gyfer y dosbarthiadau ieuengaf.

Beth yw damhegion ? Ystorïau a lefarwyd gan Iesu. Gwyddom fod Iesu yn pregethu, ond nid yn y dull y gwna ein pregethwyr ni heddiw, nid mewn pulpud mewn capel, ond allan yn yr awyr agored. Gwir y byddai yn pregethu weithiau yn y synagogau, lle y byddai rhai o'r gynulleidfa yn darllen y wers. Gwell oedd ganddo ef ben y mynydd, glan y môr, neu mewn llong.

"A phan welodd yr Iesu y tyrfaoedd efe a esgynodd i'r mynydd." Mathew 5.—Y Bregeth ar y Mynydd.

"A thorfeydd lawer a ymgynullasant ato ef, fel yr aeth efe i'r llong, ac yr eisteddodd ; a'r holl dyrfa a safodd ar y lan." Mathew 13.—Dameg yr Hauwr.

Tyrrai'r bobl i wrando arno yn athrawiaethu, ond nid rhyfedd hynny pan gofiwn nad oedd llyfrau argraffedig, newyddiaduron na'r diwifr mewn bod yr amser hwnnw, felly, rhaid oedd i'r bobl glywed rhywun yn traethu pob peth newydd. Traethai Iesu ei neges yn syml a dealladwy, ond bob amser mewn iaith brydferth, ac y rhan amlaf drwy ddweud stori.

Cynnwys y stori y pethau mwyaf cartrefol, ac adnabyddus i'r bobl, a thrwy hynny rhoi esboniad ar bethau na ellir eu deall heblaw hynny. Mae ganddo gyffelybiaeth ym mhob un o'r storïau,—dyna beth ydyw nodwedd dameg. Pan fydd athro yn yr ysgol yn ceisio disgrifio i chwi rywbeth nad ydych wedi ei weld erioed o'r blaen, bydd yn ei gymharu â rhywbeth arall yr ydych yn ei adnabod yn dda. Dyna a wna Iesu yn ei ddamhegion. Gwelwn mai stori ddaearol ag ystyr ysbrydol iddi yw dameg. Pan fyddwn yn darllen dameg ceisiwn bob amser gael o hyd i'r gwirionedd ysbrydol sydd ynddi ; yn fynych, un gwirionedd mawr sydd mewn dameg, ac ni ellir cymhwyso pob cymal ohoni i'r gwirionedd hwnnw.

Yr oedd y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion bob amser yn grwgnach am fod Iesu yn cwmpnio a'r publicanod a'r pechaduriaid.

Un dydd, pan oedd y pechaduriaid a'r publicanod yn gwrando ar Iesu, ffromodd y Phariseaid yn fawr a'i gyhuddo gan ddywedyd, "Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwyta gyd a hwynt." Medrai Iesu edrych i'r galon, a châs beth ganddo oedd rhagrith a

phobl a oedd yn ystyried eu hunain yn well na phawb arall. Adroddodd Iesu stori i ddangos fod llawenydd yn y nef am un pechadur a edifarhao yn fwy nag am namyn un pum ugain o'r rhai sydd yn meddwl eu bod mor gyfiawn fel nad oes angen edifeirwch arnynt.

Bugeiliaid oedd llawer o'r gwrandawyr a gwyddai Iesu mai defaid oedd yr anifeiliaid mwyaf adnabyddus iddynt ; ac yna cymerodd y Ddafad Golledig fel testun i'w stori. Gwyddent am ofal y bugail am ei ddefaid, yn eu rhifo, a'u cau yn y gorlan bob nos, ac yn y bore eu harwain i'r lle gorau am fwyd. Dilyn rhai o'r defaid y bugail tra y crwydra eraill byth a beunydd heb wrando ar ei lais. Deallai'r bobl mor hawdd oedd i ddafad grwydro, ac yn y diwedd golli'r ffordd. Gwyddent am siom y bugail pan wrthi yn cyfrif ei ddefaid a gweld fod un ar goll. Rhydd Iesu bwys ar y ffaith nad yw'r bugail yn rhoi i fyny nes dod o hyd i'r ddafad goll a'i dwyn yn ôl i'r praidd.

Y Deg Dryll Arian.

Yn y stori yma y mae rhywbeth ar goll sydd yn werthfawr ond nid oes ganddo fywyd nac ewyllys fel sydd gan y ddafad goll.

Efallai y teimlwn ar y cyntaf mai peth bach oedd dryll neu ddarn o arian, ac nad oedd angen y fath ffwdan yn ei gylch. Mwyaf tebygol bod iddo fwy o werth na'i werth ariannol i'r wraig yma. Yr oedd yn arfer yn y Dwyrain i wraig briod wisgo penwisg yn cynnwys deg dryll o arian. Perchir y benwisg yn fawr gan y gwr a'r wraig. Felly, pan welodd y wraig fod un darn ar goll, teimlai yn flin iawn, canys gwyddai nad oedd y benwisg yn gyflawn mwyach. Rhaid oedd gwneud y cyfan yn ei gallu i'w gael.

Paham yr oedd yn rhaid goleu cannwyll ? Yn y dwyrain nid oedd ffenestri i'r tai lleiaf. Deuai yr unig oleu i mewn drwy'r drws. Adeiladwyd y tai felly er diogelwch. Benyw dlawd ydoedd y wraig y sonnir amdani yma, ac felly yn byw mewn tŷ bach, yn ei gofid yr oedd wedi dweud wrth ei chyfeillion am y golled, ac yn naturiol yr oeddent yn cydlawenhau wedi iddi ei gael. Ceisia Iesu yn y ddameg yma eto ddangos y llawenydd sydd gan ein Tad o gael gafael yn y peth a gollwyd.

Y Mab Afradlon.

Clywir llawer o son y dyddiau yma am y stori fer. Gellir dweud mai hon yw y stori fer orau a ysgrifennwyd erioed. Cawn ynddi bictiwr prydferth o gariad Tad tuag at ei fab afradlon, yr hwn a adawodd ei gartref gan wastraffu rhoddion ei dad ar oferedd. Ond er i'r mab anghofio ei dad, fe ddeil serch ei dad yr un. Derbyn ef yn ôl yn llawen gan faddeu iddo ei holl gamweddau. Nid oedd dim allan o le mewn gadael cartref canys mae goreuon ein gwlad wedi gadael eu cartrefi ac wedi gwneud gwaith da dros Dduw a'u cenedl. Amcanion da oedd gan y bobl yma a glynasant wrth y

pethau gorau o hyd. Gwneud daioni oedd eu nôd, tra mae'r mab afradlon yn gwastraffu ei amser ac yn anghofio y da a'r pur.

Nid yw'r mab afradlon yn meddwl am ei gartref na'i dad nes ei fod wedi gwastraffu y cyfan, ac wedi ei adael yn unig. Caiff weledigaeth o'i dad ac yna tawdd ei galon falch, a daw ato ei hun gan edifarhau. Try yn ôl yn ostyngedig gan syrthio dan ei fai, a bodlon ydyw ar safle gwas yn nhŷ ei dad. Y Mab Hynaf: cawn wers arall yma i beidio a bod yn genfigennus, ac yn anfodlon rhoi croeso yn ôl. Hefyd i atgofio y rhai sydd gartref dan ofal tyner tad a mam ei bod yn haws byw yn gywir gartref am fod yna lai o rwystrau a themtasiynau ar y ffordd, a pheidio byth dirmygu y rhai sydd wedi syrthio, ond ar ôl hynny yn edifarhau ac yn ceisio byw bywyd gwell. Amcan mawr Iesu yw dangos os y medr tad daearol faddeu beiau, sicr yw y gall ein Tad Nefol wneud hynny.

Ceir yr un testun yn y tair Dameg. Rhywbeth ar goll, a'r llawenydd sydd o gael gafael yn y colledig.

Pwysleisia Iesu ar y ffaith fod Duw yn chwilio hyd nes cael.

Ni cheir son am gosp Duw ynddynt, ond gwelir fod y ddafad golledig a'r mab afradlon yn dioddef yn ystod yr amser maent ar goll. Dengys ffordd Duw o gael y troseddwr yn ôl.

Mae'r wraig a'r bugail yn mynd i chwilio hyd nes cael, ond try y mab afradlon yn ôl ei hun am fod ganddo ryddid ewyllys. Rhydd y meddwl fod yna rywbeth ar goll deimlad o brudd-der, ac anfoddlonrwydd i bawb.

Gwelir yn y ddameg y ddafad golledig nad yw'r bugail yn fodlon nes fod ei braidd yn llawn heb un ar goll.

Pan gollwyd y darn arian nid oedd y wraig yn fodlon fod yna fwlch yn y penwisg. Dysg Iesu ni i beidio anghofio Duw na'n cartref pan yn mynd allan i'r byd.

Ni all ein Tad Nefol fodloni nes cael Ei blant oll yn ddiogel yn Ei gorlan glyd.

Trefnwyd y nodiadau hyn gan y Parch. J. Islan Jones, M.A.

(*Parhad o dudalen 55*).

DAMEG Y DDAFAD A GOLLWYD.

I Luc xv., 1—7.

Un diwrnod, a'r publicanod a'r pechaduriaid yn neshau at Iesu Grist i wrando fe achwynodd y Phariseaid a'r ysgrifenyddion gan ddweud "y mae hwn yn derbyn pechaduriaid, ac yn bwyta gyda hwynt."

Mewn ateb i'r achwyniad, llefarodd Iesu dair dameg, (1) Y Ddafad a Gollesid; (2) Y Darn Arian; (3) Y Mab Afradlon.

II Y mae dameg y Ddafad Golledig wedi ei seilio ar fywyd ffermwr defaid. Tir uchel creigiog oedd llawer o dir Palesteina ; ni ellid ei gwrteithio ond gellid cadw defaid a geifr arno ; a gwnai llawer ffermwr fywoliaeth brin wrth gadw defaid. Os byddai'r fferm yn fawr cedwid bugail, neu ddau efallai ; ond ar fferm fechan y ffermwr ei hun fyddai yn bugeilio.

III Gwaith yn gofyn gofal mawr oedd gwaith bugail, i wylio'r braidd rhag difrod anifeiliaid rheibus, eu gwylio rhag mynd ar ddisberod, canys agored a di-glawdd oedd y bryniau a'r mynydd-oedd. Hefyd, pan fyddai'r borfa yn llymhau mewn un man, âi'r bugail a'r braidd i fan arall lle y byddai gwell pawr.

IV Ar y cyfan bywyd lled unig oedd eiddo'r bugail ; am fod ei gyfeillion dynol yn anaml, gwnai gyfeillion o'r defaid gan eu harail yn garedig, a gwnai'r defaid gyfaill ohono yntau. Peth cyffredin ym Mhalesteina oedd gweld bugail yn cerdded y ffordd neu ochr y bryn a'r defaid yn ei ganlyn fel cwn ar ôl eu meistr.

V Os trinia dyn anifail yn garedig fe sercha'r anifail ynddo yntau, ac os mynnech wybod sut galon sydd gan ddyn, ewch at ei anifeiliaid am dystiolaeth. Y mae'r dyn cydwybodol am i'w anifail fod yn ddiogel ac yn gysurus.

VI Y mae ambell anifail fel ambell ddyn, gan nad pa mor dda yw ei fyd, ag elfen crwydro ynddo,—rhyw ysfa am gael gwell lle. Y rhan fynychaf, newid ar eu gwaeth wna crwydriaid y praidd. Ymhlith can dafad ffermwr y ddameg yr oedd un "dafad ddrygionus" fel y dywedwn ni. Aeth ar slei oddiwrth y bugail a'i chyfeillion gan obeithio cael twmpath glas melys ymhlith y creigiau. Yn dra thebyg collodd ei throed, a syrthio i le na fedrai ddod ohono.

VII Pan welodd ef ei heisiau aeth y bugail i chwilio amdani, ac fe chwiliodd hyd oni chafodd afael ynddi. Cariodd hi adref ar ei ysgwydd, a hithau'n brefu ei hedifeirwch yr holl ffordd.

VIII Nid cosbi'r ddafad a grwydrodd wnaeth y bugail ond ceisio ei hargyhoeddi yn garedig fod ei chartref yn esmwythach na dannedd y graig y treuliodd y nos arni. Galwodd ei gyfeillion i gyd-lawenhau ag ef am iddo gael yn ôl yr hon a gollesid.

IX *Y Publicanod*: y dynion a oedd yn crynhoi'r trethi. Yr oeddynt yn atgas i'r Iddewon, nid yn unig am eu bod yn gwasanaethu'r Rhufeiniaid a oedd wedi goresgyn y wlad, ond hefyd am eu bod yn anonest, yn codi mwy o drethi nag y dylent.

Pechaduriaid : dynion nad oeddynt yn cadw yn ofalus y deddfau a'r traddodiadau Iddewig.

Y Phariseaid : Ystyr y gair Pharisead yw "Un wedi ymwahanu" (oddiwrth Iddewon cyffredin am nad oedd y rheini yn cadw'r deddfau a'r seremonïau Iddewig yn ddigon manwl).

Ysgrifenyddion : gwaith yr ysgrifenyddion oedd ysgrifennu, astudio ac esbonio i'r bobl y gyfraith Iddewig. Yr oedd pob

ysgrifennydd yn Pharisead ond nid oedd pob Pharisead yn ysgrifennydd.

Cyn belled ag y gwyddom nid oedd fawr o wahaniaeth rhwng gwaith cyfreithwr a gwaith ysgrifennydd.

X Amcan y ddameg yw dysgu bod enaid pob pechadur o werth anfesurol yng ngolwg Duw, a bod Duw nid yn unig yn barod i dderbyn pechadur edifeiriol ond hefyd yn chwilio am y pechadur sydd yn parhau mewn cyfeiliorn,—dylanwadau dwyfol yn dilyn y crwydryn nes ei gael yn ôl i'r gorlan.

Gofyniadau.

1.—Ar ba alwedigaeth y seiliwyd y ddameg hon ?
2.—Beth yw perthynas bugail da a'i ddefaid ?
3.—Beth oedd dyletswyddau bugail ?
4.—Beth sydd yn gwneud anifail yn gyfaill i ddyn ?
5.—Paham y mae ambell greadur yn mynd ar goll ?
6.—Pan welodd y bugail fod un dafad ar goll beth wnaeth ef ?
7.—Pwy oedd y *publicanod*, y *pechaduriaid*, y *Phariseaid* â'r *ysgrifenyddion*.
8.—Ar ba amgylchiad y llefarodd Iesu Grist y ddameg hon ?
9.—Beth mae'r ddameg yn ddysgu i ni ?
10.—Beth yw ystyr namyn un ?

DAMEG Y DARN (NEU'R DRYLL) ARIAN.

Luc xv., 8—10.

I Yn y ddameg hon cawn ddarlun rhannol o fwthyn gweithiwr cyffredin ; tŷ ydoedd heb ffenestr iddo yn dra thebyg, a phan ai rhywbeth ar goll, yr oedd yn rhaid cynnau canwyll cyn y gellid ei weld.

II Arferai merched ieuainc a benywaid yn y Dwyrain addurno'u pennau a rhestri neu dyrch o ddarnau arian, ac y mae'n bosibl mai at un o ddarnau o'r fath y cyfeirir yma. Yr oedd colli un darn o'r tlws yn andwyo'r cyfan.

III Gwyddai Iesu Grist, os ai un darn o arian felly ar goll y chwiliai ei berchennog amdano hyd nes caffai ef drachefn ac yna byddai yn llawenhau gyda'i chyfeillion.

IV Arfer dda yw chwilio am yr hyn a gollwyd, hyd yn oed os bychan fydd ei werth ariannol. Arferion sefydlog sydd yn gwneud i fyny gymeriad dyn a thrwy esgeuluso pethau bychain yr ydym yn tueddu i wneud esgeulustod a difaterwch yn elfennau sefydlog yn ein cymeriadau.

V Clywir plant weithiau yn dweud ar ôl colli darn bychan o arian, "Does dim ots, dim ond ceiniog oedd hi." Nid gwerth ariannol y darn yn unig sydd yn cyfrif ond effaith yr arfer o ddweud "na hidiwch" ar ein cymeriadau ni.

VI Prif amcan y ddameg hon fel yr un flaenorol yw pwysleisio'r ffaith fod enaid pechadur o werth anhraethol yng ngolwg Duw, a bod Duw ei hun drwy wahanol gyfryngau yn chwilio am yr eneidiau sydd ar gyfeiliorn.

VII Yr oedd y Phariseaid a'r ysgrifenyddion yn dirmygu'r publicanod a'r pechaduriaid ac yn edrych i lawr ar Iesu Grist am wneud dim a hwynt, "ond," meddai Iesu, "Fel y mae gwraig yn llawenhau o gael gafael yn y darn arian a aeth ar goll, felly y mae llawenydd yng ngŵydd angylion Duw am un pechadur a edifarhao."

GOFYNIADAU.

1.—Pa ddarlun gawn ni yn y ddameg hon?
2.—Pa beth, o bosibl, oedd y darn arian a gollwyd?
3.—Paham y mae'n arfer dda i chwilio am ryw beth a gollwyd nes ei gael, er nad yw o werth mawr?
4.—Beth yw prif amcan y ddameg?
5.—Beth gynhyrfodd Iesu Grist i'w llefaru?

DAMEG Y MAB AFRADLON.

LUC XV., 11—32.

I Dyma ddameg brydferth iawn sydd yn treiddio'n ddwfn i feddwl a chalon dyn. Y mae'n ymwneud a dwy egwyddor bwysig, edifeirwch a maddeuant.

II Yr oedd gan ryw ffermwr ddau fab, yr hynaf yn weithiwr da ac yn fodlon ar ei le gartref. Yr oedd yr ail fab yn wahanol iawn yn anfodlon i'w gyflwr, yn anesmwyth ei ysbryd ac yn meddwl y cai well lle a mwy o fywyd drwy adael cartref. Gofynnodd i'w dad am ei ran ef o'r eiddo, a chafodd ei gais ond nid heb i'w dad bryderu llawer yn ei gylch yn dra thebyg.

III Gydag arian yn ei logell aeth i wlad bell ac ar unwaith syrthiodd i oferedd a byw yn warthus. Cafodd ddigon o gyfeillion hyd nes y gwariodd y geiniog ddiwethaf; wedi hynny nid oedd eisiau ei gwmni ar neb a chafodd amser blin iawn ymron marw o newyn. Yn ei adfyd cofiodd am dŷ ei dad a throdd ei wyneb tuag adref yn drist ac edifeiriol. Llawenydd mawr i'w dad oedd ei weld yn dod adref yn iach ac yn edifeiriol, a chafodd yr afradlon dderbyniad gwresog.

IV Yr oedd ei frawd hynaf yn y maes ac am beth amser pallai fynd i'r tŷ nes i'w dad ymbil ag ef a'i berswadio.

V Nid yw pob bachgen a edy gartref cysurus i'w feio am hynny: y mae llawer un drwy fynnu maes helaethach i'w alluoedd wedi gwneud llawer gwell gwaith a mwy ohono nag a fyddai'n bosibl iddo ped arhosai gartref.

Y mae gweld tipyn o'r byd sydd tu draw i'r clawdd ffin yn addysg werthfawr i ddyn ac yn ei godi allan o gulni a rhagfarn,—pechodau parod y dyn cartrefol.

Byddai teuluoedd mawrion parthau gwledig Cymru yn byw mewn tlodi dygn onibai fod llawer o'r plant yn mentro dros y nyth i'r gweithfeydd neu i wledydd pell. Pethau da yn eu lle yw uchelgais iach ac ysbryd anturiaethus.

VI Er hynny peth peryglus yw i ddyn o ddychymyg gref ac ewyllys wan adael cysgod ei gartref. Y mae'n well i'r sawl nad yw yn ddigon cryf i wrthsefyll temtasiynau byd sy'n llawn llygredd fwrw llinyn ei fywyd yn agos i rywun a'i hamddiffyna ; ac y mae'r dyn sydd yn gadael cartref gan feddwl cael byd da helaethwych beunydd yn sicr o gael ei siomi.

VII Dyn hunanol sydd yn meddwl yn unig am ei bleser ei hun. Y mae'r dyn cydwybodol yn rhwym o ystyried beth yw effaith ei fywyd ar fywydau eraill. Mae'n amlwg nad oedd calon mam a thad a dwyn gofid a chywilydd ar frawd a chwaer yn fai yn ei olwg ef.

VIII Dywedir weithiau am ddyn sydd wedi ymollwng i oferedd "Nid yw yn gwneud niwed i neb ond iddo'i hun." Gwaith ffôl yw synied felly—y mae esiampl dyn ofer yn sicr o gael effaith ar rai bywydau eraill. Y mae ef hyd y gallo yn sathru egwyddorion moesol dan ei draed.

IX A dweud y gwir nid yw yn beth rhyfedd bod y mab hynaf yn teimlo dipyn yn oer ac amheus pan glywodd fod ei frawd afradlon yn y tŷ, oherwydd nid oedd ef wedi clywed cyffes edifeiriol yr afradlon. Chwarae teg i'r mab hynaf ni wnaeth gymaint ag awgrymu y dylid troi ei frawd allan i'r ffordd, ac y mae llawer o'r un farn ag ef i'r hen ŵr wneud gormod o seremoni o'r achlysur.

X Y mae'n berygl i rai dynion ieuainc feddwl ei bod hi'n werth byw'n warthus am flwyddyn er mwyn cael y fath dderbyniad tywysogaidd ar ôl troi dalen. Cofier nad oedd dioddefaint yr afradlon yn terfynu pan dderbyniwyd ef yn ôl i'w gartref. Y mae byw yn afradlon am dymor yn gadael creithiau ar feddwl, calon a chydwybod dyn sy'n ddolurus am amser hir.

XI Peth naturiol hollol ydoedd i dad yr afradlon ei dderbyn gyda llawenydd ar ôl clywed ei eiriau edifeiriol. Yr oedd profion cryf iawn o edifeirwch y bachgen (*a*) Nid mynd at ei dad i ofyn am ragor o arian wnaeth ef ; (*b*) Ni cheisiodd feio neb ond ef ei hun ; (*c*) yr oedd yn ostyngedig ac yn teimlo ei gydwybod yn ei gnoi, "Fy Nhad" meddai, "pechais yn erbyn y nef ac o'th flaen dithau, a mwyach nid ydwyf deilwng i'm galw yn fab i ti ; gwna fi fel un o'th weision cyflog.

XII Weithiau fe welwn grwydryn carpiog yn ceinioca o dŷ i dŷ. Fynychaf, y mae ganddo stori gryno a thorcalonnus. Gesyd y bai am ei gyflwr gresynus ar amgylchiadau neu ar rai o'i gyd-ddynion,—ond nid yw byth yn beio ei hun. Anodd credu y gwnai dyn felly well trefn o'i fywyd pe cawsai gyfle i ddechrau o'r newydd.

Gwyddai'r mab afradlon ple'r oedd gwreiddyn y drwg ac yr oedd yn ddigon onest i addef hynny. Hawdd yw maddau i ddyn gwir edifeiriol a pheth creulon fyddai pallu gwneud hynny ; ond heb edifeirwch nid oes faddeuant.

XIII Y mae'r ddameg yn ddarlun rhagorol o deimlad tad at ei blentyn. Nad faint a ofidiodd ei dad am yr afradlon, diflannodd pob teimlad ond tosturi, a chariad a llawenydd pan ddychwelodd ei blentyn carpiog a newynog i eiriol am faddeuant.

XIV Dyma fel y darluniai Iesu Grist gariad Duw a'i barodrwydd i dderbyn a maddau i afradloniaid edifeiriol. Y mae'r mab hynaf yn dangos ysbryd anfrawdol y Phariseaid â'r ysgrifenyddion ; a'r afradlon yn sefyll am y publicanod â'r pechaduriaid.

Y mae afradloniaid y byd yn broblem ddyrys iawn ; ond gwyddom fod cariad, trugaredd a maddeugarwch yn briodoleddau dwyfol ym mywyd dyn.

GOFYNIADAU.

1.—Pa ddwy egwyddor ddygir ger ein bron yn y ddameg hon ?
2.—Adroddwch neu ysgrifennwch ddameg y mab afradlon.
3.—A oes bai ar fachgen bob amser am ymadael a'i gartref ?
4.—Beth sydd i benderfynu ai doeth ynteu annoeth ydyw i fachgen fynd i fyw i wlad arall ?
5.—Enwch rai o beryglon moesol dyn ieuanc yn gadael ei gartref.
6.—A ydyw yn iawn i ni fyw mewn ffordd sydd yn peri gofid a chywilydd i'n perthnasau ?
7.—A ydyw yn bosibl i ddyn wneud drwg iddo'i hun heb ddrygu eraill ?
8.—Beth yw eich barn chwi am y brawd hynaf ?
9.—A ydych yn credu bod yr afradlon yn hollol gysurus o'r funud y derbynnir ef yn ôl i dŷ ei dad ?
10.—Pa dystiolaeth roddodd y mab afradlon ei fod yn wir edifeiriol.
11.—Beth feddyliwch chwi am y cardotyn sydd bob amser yn beio eraill am ei gyflwr ?
12.—Beth ydyw addysg y ddameg ?
13.—Os ydyw yn beth hawdd arwain dyn o ewyllys wan i oferedd, paham na fyddai yr un mor hawdd i'w arwain i ddaioni ?

Briwsion Mathias.

"AROS."

ARFER pethau mawr yw aros. Arfer pethau bach yw mynd, a newid. Fe glywir pobl Llandysul yn gofyn, hwn i'r llall, "Ble mae'r gwynt heddiw ? " Ambell waith fe fydd y gwynt o gyfeiriad Castellnewydd Emlyn, dro arall fe fydd o gyfeiriad Llanybydder. Ond gallaf fod yn sicr o hyn, ni chlywsoch neb erioed yn gofyn,

"Ble mae Pen Coed Foel heddiw?" Y mae Pen Coed Foel yn aros ar ei un orsedd o hyd ac nid oes debygrwydd i chwi ei gael wedi symud i Bontweli ryw fore.

Peth gwerthfawr i ddyn yw ystyried y pethau yma sy'n aros, a meddwl uwchben eu pwysigrwydd yn ei fywyd. Mae'r dyn sy'n hoff o fynd ar gered yn anghofio gwerth y cartref sy'n ei ddisgwyl, sydd yn aros iddo ddod yn ôl. Mae amryw bleserau yn mynd a dod; teyrnasoedd yn mynd a dod; a ydych yn troi i'r distawrwydd ambell dro i feddwl am y pethau sy'n aros? Yng nghanol y rhuthro a'r symud a fyddwch chwi yn *aros* gan feddwl?

"Yr awrhon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad . . ."

* * * *

Mae uno'r eglwysi yng Nghymru wedi mynd cyn belled a chanu gwahanol eiriau ar yr un tonau.

M.B.O.

* * * *

Gwell gwyliwr ar y groesffordd na chysgwr yn y deml.

Maeterlink.

* * * *

Bugail yn arwain yw gweinidog ac nid ci defaid yn dilyn.

E.G.E. (?)

* * * *

Mae digon o wroldeb, oes,
Gan bawb, os arall fydd dan groes;
Ond nid mor hawdd y ceir y dyn
A gynnal bwys ei faich ei hun.
Y sawl a feio arnaf, beied,
Heb fai arno, nac arbeded;
Y sawl sy dan eu beiau beunydd,
Fe ddylai'r rheini fod yn llonydd.

Hen Benillion.

Cynghrair y Gwragedd.

RHANBARTH CEREDIGION.

DAETH llawer ynghyd i'r cyfarfod yn Rhydygwin ar Fawrth 11. Arweiniwyd yn y defosiynau gan Miss Jones, Aldergate, ac wrth yr organ yr oedd Mrs. Davies, Caerwilym. Llywyddwyd gan Miss Evans, Ffynnon Fair, a mynegodd ei phleser o weld cynifer o gynrychiolwyr ar adeg mor anodd.

Yr oedd adroddiadau rhagorol yr adrannau yn braw o ddiddordeb yr aelodau.

Penderfynwyd ein bod yn rhoi croeso cynnes i'n cartrefi i'r pamffled, *Egwyddorion yr Undodiaid.*

Ar wahoddiad adran Capel y Bryn cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor yno yn gynnar ym mis Medi.

Ar ddiwedd cyfarfod hwylus mwynhawyd te gyda'n gilydd.

K. J.

Cyrddau Chwarter Caeronnen.

Ar ddydd Mercher, Ebrill 12, 1944 cynhaliwyd Cyrddau Chwarter y Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yng Nghapel Caeronnen a bu'r tywydd yn garedig gan wneud iawn am anghyfleusterau teithio y dyddiau hyn. Daeth mwy at ei gilydd nag yr ofnem, ac yr ym am ddiolch i bawb a wnaeth ymdrech ac aberth i ddod. Yr ym yng Nghaeronnen yn falch inni ganiatau cynnal y Cyrddau, a gobeithio bellach y cynhelir hwy'n ddifwlch i'r diwedd.

Yn y prynhawn am 1 o'r gloch cynhaliwyd Pwyllgor y Gymdeithas dan lywyddiaeth y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Trebanos sef un o blant Caeronnen. Nid oedd dim byd pwysig gerbron y Gymdeithas ond rhoes John Evans, Ysw., yr Is-lywydd rybudd o gynnig gogyfair a'r Cyrddau Blynyddol parthed cyflogau'r gweinidogion. Ni wn i mo barn yr Eglwysi ar y mater ond ofnaf bod yna lawer aelod fel un yn y cyfarfod yn tybio eu bod yn cael arian da am *un dydd o waith.* Y mae'r mwyafrif o'n gweinidogion yn y Sir ar dalaru fel y mae gofyn ar i'r Gymdeithas a'r Eglwysi edrych ffeithiau yn eu hwynebau. Fe fyddai'n burion i'r Eglwysi ystyried a oes eisiau gweinidog arnynt. Hwyrach y buasai'n burion gwneud hebddynt. Nid wyf yn sicr na chaiff llawer eglwys y cyfle yn y man. Y mae yna weinidogion ymhob enwad yn cael llai o gyflog na'r gweithwyr a'r yr heol neu ferch mewn offis, ac y mae cyflog ysgolfeistr a nyrs heb son am ddim yn uwch yn dywysogaidd yngolwg llawer gweinidog. Credaf y bydd raid wynebu'r broblem ar fyr. Hyd yn hyn ni ddaeth dim o'r Alwad i'r Eglwysi. Nid wyf yn sicr na byddai'n ddiddorol gweld gwerth gweinidog ymhob eglwys wrth swm y cyfraniadau. Hwyrach y ceir hamdden a hwyl i'w drafod ryw ddydd.

Yn y Prynhawn am ddau o'r gloch dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. S. E. Bowen a phregethwyd gan y Parchn. J. D. Jones, B.A., B.D. a D. Jacob Dafis, Aberystwyth. Yn yr hwyr, dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. E. O. Jenkins a phregethwyd gan y Parchn. Aubrey Martin a Lewis Williams.

Ar ran eglwys Caeronnen yr wyf am ddiolch i bawb am ddod ac i'r gweinidogion yn arbennig am eu gwasanaeth.

COFNODION Y PWYLLGOR

Cynhaliwyd yng Nghaeronnen, dydd Mercher, Ebrill 12, a'r llwyydd, y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. yn y gadair. Arweiniwyd yn y defosiynau gan y Parch. S. E. Bowen.

Cofnodion.—Darllenwyd a derbyniwyd cofnodion y cwrdd blaenorol. Derbyniwyd hefyd adroddiad y pwyllgor gwaith.

Grants.—Pasiwyd ein bod yn cymeradwyo'r Gymdeithas Gyffredinol i wneud y grants arferol i Gapel-y-Cwm, Pantteg, a Phen Rhiw.

Y Drysorfa.—Ystyrrid adroddiad y trysorydd, Mr. D. Jones, yn un ffafriol iawn, a diolchwyd iddo am ei lafur yn dwyn y cyllid i'r fath sefyllfa foddhaol.

Pwyllgor Gwaith.—"A oes modd creu ychydig adfywiad yn ein heglwysi a'n hysgolion Sul?" Trefnwyd fod y Pwyllgor Gwaith yn ymdrin a'r mater hwn eto, a bod y Parch. J. Islan Jones, M.A. yn agor yr ymdrafodaeth. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith ystyried hefyd a oes modd trefnu Ymofynnydd rhatach.

Y Cyrddau Blynyddol.—Trefnwyd gofyn i gynulleidfa Pantydefaid dderbyn y cyrddau.

Cyflogau Gweinidogion.—Rhoddodd yr Is-lywydd, y Cynghorwr John Evans, rybudd y bydd iddo yn y cwrdd blynyddol gynnig penderfyniad ynglyn a'r mater hwn.

Diolch.—Ar gynnig y llywydd, yn cael ei ategu gan y Parch. S. E. Bowen, diolchwyd yn gynnes i'r cyfeillion yng Nghaeronnen am dderbyn y cyrddau.

E. O. Jenkins, *Ysgrifennydd.*

Priodasau.

Dydd Gwener y Groglith unwyd mewn glân briodas SARAH JANE (SALLIE) DAVIES, merch y diweddar Mr. Griffith Jones Davies, Penlan a Mrs. Davies, Deganwy a JOHN WILLIAMS JAMES, The Teifi Stores, Cwmanne, Llanbedr, yng nghapel Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

Dydd Sadwrn wedyn priodwyd NANCY, merch Mr. a Mrs. John Jones, Tanybryn, Cwmanne a Mr. HARRY FOX, Bignall Hill, Stoke-on-Trent, yng nghapel Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog.

Dydd Llun Pasc, yng nghapel Caeronnen gan y Gweinidog unwyd mewn priodas DINAH merch y diweddar Mr. a Mrs. Davies, Caeronnen—yn awr o Ysgol Llanfilo, Brycheiniog a TOM WILLIAMS o Lanymddyfri.
Hir oes a dedwyddyd i'r tri phâr ifanc.

Yn ei nef mae'n Dinah ni,—a daliwyd
A'r un dolur Nancy ;
Yn eich oes, doed, Sallie i chwi
Lawenydd o gael Johnnie.

Marwgofion.

Ebrill 28, bu farw GRIFFITH JENKINS, Tanrallt, Cwrtnewydd yn 57 mlwydd oed. Gôf wrth ei alwedigaeth, ac yn y blynyddoedd diwethaf yn oruchwyliwr dan y Cyngor Sir. Yr oedd o dylwyth o ofaint a'r rheini i gyd yn annibynol o feddwl a diwylliedig i fesur. Dyn diddorol mewn scwrs, a doniol mewn ffraeth oedd Griffith, ac yn gyfaill i bawb yn y pentre. Cafodd angladd lluosog a nifer y Cynghorwyr Sir yn dystiolaeth ei fod yn wasanaethwr da. Gwasanaethodd y Parchn. Stanley Thomas a Morris Jones yn y tŷ, y Parch. S. E. Bowen yn y Capel, a'r Parch. Lewis Williams ar lan y bedd. Gadawodd wraig a nifer o blant ac wyrion mewn hiraeth o'i golli ac un o'i blant—Dafydd—yn garcharor yn Japan. Cydymdeimlir yn fawr a hwy yn eu trallod.

Ebrill 22, yn 79 mlwydd oed, ANNE JONES, gweddw y diweddar John Jones, Tryal, plwyf Llanarth. Yn Tryal y cafodd ei magu, a bu yn trigo yno hyd ei marwolaeth. Ymadawodd, fel yr oedd wedi dymuno, heb gael dim cystudd. Un arall o'i dymuniadau oedd cael marw yn yr haf, ac ar ddydd ei hangladd yr oedd y ffurfafen yn ddigwmwl, a'r haul yn tywallt ei belydrau disglair a gwresog i lawr. Yr oedd o bobl Undodaidd a pharhaodd yn Undodwraig hyd y diwedd. Yr oedd amryw o rinweddau yn harddu ei bywyd. Yr oedd yn nodedig am ewyllysio yn dda i bawb, am fod yn garedig hyd y gallai, ac am fod yn uniawn ym mhob gweithred. Claddwyd ym mynwent eglwys Llanwnnen. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a chynorthwywyd yno gan y Parch. S. G. Thomas, Seion, Cwrtnewydd. Yn yr eglwys ac ar lan y bedd gwasanaethwyd gan y Parch. S. Morgan, offeiriad, a chan y Parch. Mr. Jones, Ficer Ciliau Aeron. Gadawodd un mab ynghyd a'i briod a llu o berthynasau eraill mewn galar.

Yn sydyn, gan syfrdani pawb o'i chyfeillion bu farw Miss MARGERY HATHREN DAVIES, Cefn Coed ar y 27 Mawrth yn 62 oed. 'Roedd fel arfer yn yr Hen Dy Cwrdd y Sul blaenorol, ac ni ddaeth i feddwl neb pryd hynny y byddai mewn ychydig oriau yn rhoddi y ffarwel ola. Merch ydoedd i'r diweddar Barch. John Hathren Davies fu yn weinidog ffyddlon a mawr ei barch ar y Cefn

am 33 o flynyddau. Digon anhebig iddo ef mewn llawer cyfeiriad, eto hi oedd y tebycaf iddo mewn ffyddlondeb diball i'r achos, ac mewn gwasanaeth didwyll i'r pethau gorau. Cymeriad distaw, diwenwyn hollol, yn caru'r encilion, ond wedi cysegru ei doniau i'w chysegr. Bu farw, fel y bu fyw, yn dawel a heddol, gan adael ar ei hôl lu o gyfeillion a pherthnasai. Cyn marw ei mham, ac iddi symud i ofalu am ei brawd, 'roedd yn ei chapel deirgwaith y Sul, ac oni byddai hi yn yr oedfa byddai rhywbeth o le. Rhoddodd i'w chapel wasanaeth hir o ffyddlondeb diguro ; yn ysgrifenyddes yr Ysgol Sul am 23 mlynedd, a pheth amser yn ol anrhegwyd a "Long Service Medal." Cofia amryw o Undodiaid Sir Aberteifi amdani yn mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas; ffyddlondeb oedd ei nod amlycaf. Ni byddai un cyfarfod o'r enwad ym Morgannwg heb ei phresenoldeb. Dyma ddwed un a'i hadnabu erioed, "Her death has left a gap at Hen Dy Cwrdd, that cannot be easily filled. Her loyalty to her church could hardly be equalled. From the Sunday and week-night services neither inclement weather nor distance could keep her away. Every church lives not by the ebb and flow of the many, but by the adherence of the few. Miss Davies was one of these few." Gosodwyd ei gweddillion i orwedd mewn "enwog fedd o dan yr ywen," dydd Gwener dilynol pryd y daeth llu o gyfeillion ynghyd i dalu iddi y deyrnged ola. Gwasanaethwyd yn ei hangladd gan ei gweinidog, Parch. J. Marles Thomas. Estynir cydymdeimlad dwys a'i dwy chwaer, dau frawd, a'r perthnasai oll yn eu galar.

"Tŷ yr hon oedd yng nghysgod y Synogog a'i chalon yn ei chysegr."

Chwefror 25, yn 70 mlwydd oed, bu farw yn dra annisgwyliadwy ANNE HUGHES, Maesymeillion, Cellan. Yr oedd llu mawr yn ei hadnabod am ei bod wedi bod yn ffyddlon yng nghyfarfodydd yr enwad ac yn y Cymanfaoedd. Rywsut yr oedd ganddi ragor o hamdden na'r cyffredin ac ystyriai hi yn ddyledswydd i fod yn bresennol. Hannai o ben deulu Blaenwaun ac yr oedd ei hewythr Evan Davies, Blaenwaun wedi bod yn ffyddlon yng Nghaeronnen. Rywsut y mae Caeronnen yn anad un eglwys arall wedi ei bylchu yn anrhugarog gan angau ac nid oes yn aros nemor un a oedd yma ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Y mae'r hen ffyddloniaid yn y gornel neu wedi blaenu, ac y mae Caeronnen wedi bod yn enwog am ei chwiorydd ffyddlon a selog ar hyd y blynyddoedd. Y maent wedi eu symud bob yr un ac y mae Caeronnen yn wynebu ar gyfnod moel yn ei hanes ond drwy sêl a gweithgarwch medr eto wynebu'r dyfodol heb ddiffygio. Ar y pryd, arwyddair Caeronnen yw "Trech metel na maint"—Un o hen deulu selog oedd ein chwaer. Yr oedd Caeronnen yn agos iawn at ei chalon a cherddodd yn ffyddlon yma i'r diwedd. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers blynyddoedd ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr oedd yn dihoeni'n brysur. Yr oedd ganddi galon fawr a charedig a thŷ agored. Medrai fod yn llym, ond tu ol i'r cyfan yr oedd ei chariad at Gaeronnen. Bydd ei lle yn wâg dro hir ac nid oes dim yn torri calon gweinidog fel claddu hen ffyddloniaid. Y dydd Mawrth dilynol daearwyd ei gweddillion yn naear mynwent Caeronnen. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog gyda chynorthwy Ficer y Plwyf. Gadawodd un brawd a pherthynasau eraill i alaru am chwaer ofalus a chymydoges garedig.

Ebrill 13, yn Nolau Llethi, Llanarth, JANE DAVIES, gynt o Neuadd, Pantydefaid yn 65 mlwydd oed. Enwau ei rhieni oedd Thomas a Sally, a bu ei mam yn gofalu am gapel Pantydefaid am flynyddoedd. Bu Jane hithau am flynyddoedd yn athrawes yn ysgol Tregroes lle'r hoffid hi gan y plant ac y perchid hi gan y rhieni. Bu'n athrawes ddefnyddiol hefyd yn ysgol Sul Pantydefaid, a dangosodd ddiddordeb mawr mewn canu. Wedi iddi golli ei mam a mynd yn ddigwmni nid hir y bu cyn i'r meddwl glafychu fel na allai wasanaethu fel cynt. Er fod y meddwl yn glaf yr oedd yn hollol ddiniwed, ac nid ymyrrai yn helynt neb. Rhyw ddihoeni'n raddol a wnaeth, dioheni heb yn wybod iddi ei hun, a chyrhaeddodd ben y dalar heb gael fawr o gystudd. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol yn ymyl bedd ei mamgu a'i thadcu ym mynwnet Capel y Fadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Ychydig yw nifer y perthynasau a adawodd.

Nodion yr Eglwysi.

CAPEL-Y-CWM.—Ar Ebrill 8fed, rhoddodd Mrs. Meredith Williams, Woodlands, dê i'r Ysgol Sul, aelodau'r Adran o Gynghrair y Gwragedd yn ei chynorthwyo wrth y byrddau. Yn dilyn cafwyd rhaglen gan y plant tan arweiniad Mr. James Thomas, a'r Henadur Meredith Williams yn gwobrwyo y ffyddloniaid a llyfrau diddorol a gwerthfawr. Y mae yn arferiad blynyddol bellach gan deulu caredig Woodlands estyn caredigrwydd yn y modd hwn i Gapel-y-Cwm, a hir y parhao, medd y plant a phawb.

CRONFA'R MYFYRWYR.—Dymunaf adgofio'r cynulleidfaoedd na ddanfonodd eto eu casgliad am eleni fod diwedd y Sesiwn ar bwys—Mehefin 30. Os gwelwch yn dda, anfonwch yn fuan.

Drwg gennyf fod gwallau lawer yn ymddangos yng nghyfrifon y gronfa am 1943 fel yr argraffwyd hwy gyda chyfrifon y Gymdeithas—myfi yn unig sydd yn gyfrifol am hyn. Dyma gasgliadau'r eglwysi fel y dylent ymddangos yn y Balance Sheet.—Aberdar (Hen Dy Cwrdd), £2/2/0; Aberdar (Highland Place), £1/1/0; Aberystwyth, £2/7/6; Alltyplaca, £2/4/6; Capel-y-groes, £3/2/3; Caerdydd, £1/4/9; Caerfyrddin, £5/9/3; Cefncoed, £1; Cribyn (1942), £2/10/6; Llandysul, £5; Llwynrhydowen, £1/7/3; Mountain Ash, 5/-; Pantydefaid, £1/5/6; Penard, £1; Pontypridd, £1; Abertawe, £3/3/0. O dan "Expenditure" darllener —Yn y Banc £61 (Sixty-one); Cheque Book, 2/-.

Celfan, Southgate, Swansea. SIMON JONES, *Trysorydd.*

LLWYNRHYDOWEN.—Prynhawn dydd Sul, Ebrill 2, ar ddiwedd y gwasanaeth cyflwynodd Miss Jones, Gellifaharen ar ran y gynulleidfa rodd o arian i Mrs. Jennie Lloyd, Rhydfene fel arwydd fechan o barch y gynulleidfa iddi ynghyd a'i theimlad o ddyled iddi am ei ffyddlondeb diball i'r Ysgol Sul a'r Cwrdd er yn blentyn, yn enwedig ei gwasanaeth gyda'r organ. Y mae dymuniadau gorau'r gynulleidfa yn ei dilyn i'w chartref newydd. Mewn araith fer diolchodd Mrs. Lloyd, gan ein sicrhau fod yr achos yn Llwynrhydowen yn agos iawn at ei chalon. ——O newid, cafwyd "Noson Lawen" yma hwyrddydd Gwener y Groglith yn lle gwyl dê flynyddol yr Ysgol Sul, a chafwyd hwyl fawr o saith hyd ddeg o'r gloch. Gofalodd y chwiorydd am bethau blasus i'w bwyta. Diolch yn fawr iddynt. Cyflwynodd yr arolygydd, Mr. Richard Davies, Pantmoch, wobrwyon i dros ddeugain o blant am gadw yr ysgol. Yr oedd pedwar wedi ei chadw yn ddifwlch yn ystod 1943; un wedi cadw chwe mlynedd heb golli tro; un arall wedi cadw pum mlynedd. Mae yma nifer dda o blant ffyddlon, ond gallesid gwneud rhagor o rai mewn oed. Yn ystod yr hwyr cafwyd canu a siarad.

ALLTYPLACA.—Ebrill 15, dydd Tê yr Ysgol Sul hon eleni a'r gynulleidfa a phawb yn cyfrannu at y wledd. Yn yr hwyr cafwyd Eisteddfod bur lwyddiannus yn diweddu mewn swm sylweddol at Gronfa'r Ysgol Sul.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N. am 4.15 p.m. ar y Sul cyntaf o'r mis. Hapus oeddym o weled a chlywed y Parchedig Tyssul Davies, B.A. unwaith eto yn ein gwasanaeth, ym mis Ebrill. Yr oedd mewn iechyd a hwyl ardderchog, ac anodd ydyw meddwl ei fod yntau ymhell dros ei drigain-a-deg. Rhoes inni bregeth rymus iawn, yn dangos y gwahaniaeth rhwng dysgeidiaeth Iesu o Nasareth a chrefyddau'r byd. Y mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cyd-fabwysiadu Mr. Jack Williams. Pleser mawr oedd clywed bod y Parchedig J. Arthur Pearson yn parhau i wella, a'i fod wedi cael tysteb ardderchog gan y Provincial Assembly ar ei ymddiswyddiad. Balch iawn hefyd oeddym o gael ar ddeall bod rhai o'r aelodau wedi clywed oddi wrth Mr. Jack Lewis yn ddiweddar, a'i fod ef yn iach a hwylus.

Trefn y dyfodol :—Mehefin—Y Parch. T. L. Jones.
Gorffennaf—Y Parch. D. Jacob Dafis.
Awst—Y Parch. Aubrey Martin B.A.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.